



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

37/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2023

Llesiant

Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol
Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-351-5

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llesiant

Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Jen Lyttleton-Smith, Pippa Anderson, Simon Read a Shaun Harris

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor.



Cardiff
Metropolitan
University



Lyttleton-Smith, J., Anderson, P., Read, S. & Harris, S. (2022). *Llesiant: ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 37/2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llesiant-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
	Cyd-destun	5
	Pwrpas a Rhesymeg.....	8
	Cwestiynau Ymchwil.....	10
2.	Dulliau	12
	Dulliau Ansoddol.....	12
	Dadansoddiad Ansoddol.....	14
3.	Canfyddiadau	20
	Canfyddiadau Meintiol	35
4.	Trafodaeth.....	42
	A yw cyfranogwyr yn rhannu'r ddealltwriaeth o lesiant a gymhwysir o fewn y Ddeddf a NOF?	42
	Pa agweddau ar lesiant personol y mae cyfranogwyr yn eu codi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf na'r NOF?	43
	Sut mae cyfranogwyr yn lleoli llesiant mewn perthynas â chysyniadau cydgysylltiedig, megis iechyd meddwl, ansawdd bywyd, boddhad â bywyd, a hapusrwydd?	45
	Sut yr adlewyrchir gweithrediad y Ddeddf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru?	48
	Mesur Llesiant o dan y Ddeddf.....	50
5.	Casgliadau	52
	Cyfeiriadau.....	56
	Atodiad 1: Amlinelliad o Amserlen Cyfweliadau Ansoddol (Oedolion a Phobl Hŷn).....	59
	Atodiad 2: Dadansoddiad o ddata Llesiant	60

Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth.....	6
Tabl 5.1: Mesurau a chymhwysiad Llesiant Dolan a Metcalfe (2013) yn Llywodraeth Cymru	50
Tabl A1: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Poblogaeth Gyffredinol.....	61
Tabl A2: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Gofalwyr.....	62
Tabl A3: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol.....	63
Tabl A4: Dadansoddiad Cynradd GLM o Fesurau Llesiant – Poblogaeth Gyffredinol Cymru	64
Tabl A5: Dadansoddiad Sensitifrwydd GLM o Fesurau Llesiant gyda chyfnod COVID-19 – Poblogaeth Gyffredinol Cymru.....	65
Tabl A6: Dadansoddiad Cynradd GLM o Fesurau Llesiant – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol.....	66
Tabl A7: Dadansoddiad Sensitifrwydd GLM o Fesurau Llesiant gyda chyfnod COVID-19 – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol.....	67

Rhestr Ffigurau

Ffigur 3.1: Sgorau Llesiant Cymedrig y Boblogaeth Gyffredinol 2013-2021.....	37
Ffigur 3.2: Sgorau Llesiant Cymedrig Gofalwyr 2013-2021.....	38
Ffigur 3.3: Sgorau Llesiant Cymedrig 2013-2021 Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol.....	39

Geirfa

Acronym/Gair Allweddol	Diffiniad
ALI	Awdurdodau Lleol
Arolwg Cenedlaethol	Arolwg Cenedlaethol Cymru
Asesiadau	Cynhelir asesiadau gydag unigolion i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar yr unigolyn a cheisio diwallu'r anghenion hynny, a gofawyr i nodi'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn, plentyn, neu ofalwr lle gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth.
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pobl yn gallu gofyn am yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt i atal eu sefyllfa eu hunain rhag gwaethygu, a bod gofawyr yn gallu cael cymorth i'w cynorthwyo yn eu rolau gofalu a chynnal eu llesiant eu hunain.
CI	Cyfwng Hyder. Dyma gymedr amcangyfrif plws a minws yr amrywiad yn yr amcangyfrif hwnnw.
Cydgynhyrchu	Nod y Ddeddf yw cael pobl i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal a chymorth. Mae'n golygu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw a'u teulu, ffrindiau a gofawyr fel bod eu gofal a'u cymorth y gorau y gall fod.
Cynorthwyyr Personol, PAs	Mae cynorthwyydd personol yn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel y gallant gyflawni canlyniadau llesiant personol lle mae'r unigolyn yn byw.
EFFAITH	Gwerthusiad annibynnol o Weithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
GLM	Model Llinol Cyffredinol. Mae hon yn dechneg modelu ystadegol sy'n galluogi archwilio'r berthynas rhwng newidyn dibynnol a newidynnau annibynnol trwy swyddogaeth cyswllt.
Gweithio amlasiantaethol	Nod y Ddeddf yw cryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth i sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl.
Llais a Rheolaeth	Mae Llais a Rheolaeth yn egwyddor o'r Ddeddf sydd â'r nod o roi'r unigolyn a'i anghenion wrth galon eu gofal a'u cymorth, gan ddefnyddio eu 'llais a rheolaeth' dros y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r pethau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.

Acronym/Gair Allweddol	Diffiniad
Llesiant	Nod y Ddeddf yw sicrhau bod llesiant ym mhob rhan o fywydau pobl. Mae llesiant yn fwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth cywir, bod yn rhan o gymuned gref, cael ffrindiau a pherthnasoedd sy'n dda i chi, a chael hobiau, gwaith neu ddysgu.
LLSIDI	Salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Dyma fesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn rhestru pob ardal fach yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).
P-FE	Gwerthusiad sy'n Ffocysu ar Egwyddorion
SERG	Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth
Sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'	Mae sgwrsiau 'Beth sy'n Bwysig' yn ffordd i weithwyr proffesiynol ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant presennol, a'r hyn y gellir ei wneud i'w cefnogi. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig helpu i sicrhau bod llais yr unigolyn neu'r gofalwr yn cael ei glywed a 'beth sy'n bwysig' iddyn nhw.
Taliadau Uniongyrchol (DPs)	Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion a/neu eu gofalwyr, yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal cymdeithasol cymwys, i ddod o hyd i ofal sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion, yn hytrach na defnyddio darparwyr statudol presennol. Eu bwriad yw darparu mwy o hyblygrwydd, annibyniaeth, a dewis a rheolaeth dros y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn.
WIHSC	Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, rhan o Brifysgol De Cymru.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru a chynghorwyr arbenigol i gyflawni gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf').
- 1.2 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol – astudiaeth IMPACT¹ – wedi bod yn rhedeg ers mis Tachwedd 2018 ac mae'n cael ei arwain gan yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru ochr yn ochr â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe.
- 1.3 Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Bangor a Chanolfan PRIME Cymru, ac fe'i cefnogir gan Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth (SERG)² gyda'i dri chyd-gadeiryddion dinasyddion.

Cyd-destun

- 1.4 Mae'r Ddeddf yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' ym mholisi, rheoleiddio a threfniadau darparu gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae iddi 11 rhan a chaiff ei llywio gan bum egwyddor: llesiant; cydgyhyrchu; llais a rheolaeth; gweithio amlasiantaethol, ac atal ac ymyrraeth gynnar. Yn gysylltiedig â hi mae strwythurau, prosesau a chyfres o Godau Ymarfer.
- 1.5 Mae'n wirioneddol bwysig nodi natur yr egwyddorion a sut y cânt eu hamlygu ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaeth, gofalcwyr a'r gweithlu. Nid yw'r pum egwyddor yn bodoli ar eu pen eu hunain – maent yn rhyng-berthynol ac yn rhyng-gysylltiedig. Mae gorgyffwrdd rhwng athroniaeth sylfaenol pob un, ac felly ym mhrofiadau pobl mae'n anodd ynysu un egwyddor oddi wrth y llall weithiau.

¹ Mae ffilm ragarweiniol ddwyieithog yn egluro strwythur yr astudiaeth i'w gweld yma: [Film gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube](#)

² I gael rhagor o wybodaeth am y SERG, gweler: [Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth | Prifysgol De Cymru](#)

- 1.6 Er enghraifft, mae bron yn amhosibl dirnad sut y gall cydgynhyrchu fel egwyddor weithredu heb sicrhau yn gyntaf fod gan bobl lais a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth. Yn yr un modd, mae atal yn aml yn rhagdybio y bydd 'cynnig' amlasiantaethol yn ei le i bobl er mwyn atal argyfwng. Ac wrth gwrs, nod pob un o'r egwyddorion yn y pen draw yw sicrhau gwell canlyniadau llesiant i bobl, sy'n egwyddor ynddo'i hun, ac yn destun yr adroddiad hwn.
- 1.7 Fel y cyfryw, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, er ei fod yn amlwg yn ymwneud â llesiant, mae adegau isod pan gyfeirir at dystiolaeth ynghylch egwyddorion eraill. Mae hyn yn adlewyrchu natur ryng-gysylltiedig yr egwyddorion a nodir uchod. Bydd tystiolaeth o'r fath yn cael ei chyfosod yn yr Adroddiad Terfynol sy'n
- 1.8 tynnu deunydd o hwn a'r adroddiadau a gynhyrchwyd ar yr egwyddorion eraill.
- 1.9 Ochr yn ochr â'r pum egwyddor, rydym wedi nodi pum maes lle mae egwyddorion y Ddeddf yn 'cwrdd' â'r bobl neu'r sefydliadau y dylai'r Ddeddf fod yn effeithio arnynt – unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalywyr ac aelodau o'u teuluoedd, y cymunedau y maent yn byw ynddynt, y gweithlu sy'n eu cefnogi, a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau i'w cyflawni fel yr amlinellir yn y Ddeddf a'r Codau Ymarfer cysylltiedig:

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth

Egwyddorion	Meysydd
Llesiant	Citizens
Llais a rheolaeth	Teuluoedd a Gofalwyr
Cydgynhyrchu	Cymunedau
Gweithio aml-asiantaethol	Gweithlu
Atal ac ymyrraeth gynnar	Sefydliadau

- 1.10 Mae'r astudiaeth gwerthuso yn cynrychioli asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi effeithio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalywyr. Er mwyn gwireddu hyn, rydym yn defnyddio'r dull a arddelwyd gan Michael Patton (2018) yn ei fframwaith '*Principles-Focused Evaluation*' (P-FE) yr ydym yn ei ddefnyddio fel sail ddamcaniaethol a chysyniadol

i'n hastudiaeth.³ Mae tri chwestiwn allweddol y mae Patton yn ein hannog i'w hystyried fel rhan o unrhyw P-FE (2018, tt.27-29):

1. I ba raddau y mae egwyddorion ystyrion a gwerthfawr wedi'u mynegi?
2. Os yw egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y glynir wrthynt yn ymarferol?
3. Os cedwir at hyn, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol?

Mae cysylltiad clir rhwng cwestiynau Patton, y meysydd i'w hymchwilio yn ein hastudiaeth, a'r pum egwyddor sy'n sail i'r Ddeddf. Ystyrir y cysylltiadau hyn yn fanwl fesul egwyddor mewn cyfres o adroddiadau, a dyma un ohonynt. Mae'r adroddiad hwn sy'n canolbwyntio ar yr egwyddor o lesiant wedi'i ysgrifennu gan is-dîm o fewn grŵp astudio gwerthuso IMPACT sydd â diddordeb arbennig ac arbenigedd yn y pwnc hwn.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o'r Adolygiad Llenyddiaeth Llesiant

- 1.11 Er mwyn gwneud rhai o'r trafodaethau yn yr adroddiad hwn yn fwy eglur, mae angen bod yn gyfarwydd â rhai o'r cysyniadau a'r dadleuon allweddol a drafodwyd yn y bennod ar lesiant yn yr adolygiad llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol sy'n llywio'r astudiaeth hon (Llewellyn et al., 2020).
- 1.12 Mae gwahaniaeth rhwng y mesuriad uniongyrchol o lesiant ei hun (h.y., safbwynt goddrychol o ba mor gadarnhaol neu negyddol y teimla person yw ei lesiant) a phenderfynyddion llesiant (e.e. amgylchiadau bywyd, profiadau mewn bywyd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol neu'n negyddol at deimlad y person hwnnw o lesiant, y gellir ei fesur yn wrthrychol).
- 1.13 Bwriad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ('NOF') (Llywodraeth Cymru, 2019) yw llywio'r gwaith o fesur llesiant a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol. Er ei fod yn cynnwys rhai mesurau llesiant uniongyrchol, mae bron yn gyfan gwbl yn ymwneud â phenderfynyddion llesiant.

³ (2022) I gael rhagor o wybodaeth am P-FE gweler Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. Efrog Newydd: Guilford Press. I weld sut mae P-FE yn berthnasol i'r astudiaeth hon, gweler Pennod 2 yn Llewellyn M., Verity F., Wallace S. a Tetlow S. (2022) *Disgwyliadau a phrofiadau: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gofawr ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 16/2022. Ar gael yn: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: disgwyliadau a phrofiadau](#).

- 1.14 Mae'r penderfynyddion llesiant hyn, fel y'u mynegir yn y dangosyddion NOF, yn ymwneud â mesurau **gwrthrychol** sy'n gysylltiedig â llesiant (h.y., y gellir eu mesur gan ffactorau y tu allan i'r unigolyn, megis ansawdd tai neu lefel addysgol). Rhagdybir bod llesiant cadarnhaol yn cael ei gyflawni pe bai'r penderfynyddion llesiant yn bodloni safonau boddhaol, ac i'r gwrthwyneb ar gyfer llesiant negyddol.
- 1.15 Amlygodd ymchwil a drafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth dro ar ôl tro bwysigrwydd cyfartal mesur llesiant **goddrychol** i werthuso polisi cyhoeddus (h.y., gofyn i bobl sut maent yn teimlo). Mae hyn wedi'i ymgorffori yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ffurf cwestiynau sy'n seiliedig ar y rhai a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ('ONS') i fesur llesiant (Llywodraeth Cymru, 2022).⁴ Mae'r rhain yn cynnig mesur dirprwyol ar gyfer llesiant, yn yr ystyr eu bod yn ymwneud â boddhad â bywyd a hapusrwydd, yn gyson â rhywfaint o lenyddiaeth sy'n cyfuno'r cysyniadau hyn â llesiant (er nad yw hwn yn ddull y cytunwyd arno'n gyffredinol ymhlith ymchwilwyr a damcaniaethwyr llesiant).
- 1.16 Daeth yr adolygiad llenyddiaeth a lywiodd y gwerthusiad i'r casgliad mai'r dull o fesur a deall llesiant ar lefel y boblogaeth, a ategir orau gan y llenyddiaeth, yw dull 'galluoedd' perthynol (Sen, 2009).⁵ Awgrymodd yr adolygiad y dylid archwilio'r cysyniad hwn er mwyn gwella cynrychiolaeth llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Pwrpas a Rhesymeg

- 1.17 Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth ynghylch yr egwyddor llesiant. Mae'r cysyniad o 'llesiant' yn angori Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') o ran teitl a diben, gan gynnig yn ymhlyg bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cymryd camau i gynyddu llesiant cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2014). Er bod yr iaith hon, ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth, ac o'r herwydd, pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, yn cyd-fynd yn gyfforddus â'r cysyniadau blaenorol o'u diben (er enghraifft, gofal yr henoed), mewn eraill mae'n symudiad dramatig i ffwrdd o fframweithiau polisi blaenorol (er enghraifft, gwasanaethau plant a drefnwyd yn flaenorol o amgylch model sy'n canolbwyntio ar risg (e.e. gweler: Broadhurst et al., 2010) er bod y graddau y mae

⁴ Mae gan Arolwg Cenedlaethol Cymru dudalen we bwrpasol gyda'r canlyniadau diweddaraf: [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

⁵ "The capabilities approach claims that well-being can be assessed by understanding individual's capabilities to do or be something and that individuals should be evaluated within the context of available and feasible opportunities, not their achievements (Alkire, 2015; Sen, 2009)", wedi'i gymryd o (Llewellyn et al, 2020).

risg yn parhau i fod yn egwyddor graidd gwasanaethau plant yng Nghymru yn werth ei archwilio).

- 1.18 Oherwydd arwyddocâd cadarnhaol a dymunol y cysyniad o lesiant fel yr awgrymwyd gan McLeod a Wright (2016), gallai ail-frandio gofal cymdeithasol cyfoes fel gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar lesiant helpu i ddatblygu argraffiadau cadarnhaol o'i waith ymhlith staff a'r cyhoedd, gyda'r canlyniad o greu gwell perthynas. Mae'r cysyniad hefyd yn sail i NOF (Llywodraeth Cymru, 2019) sy'n manylu ar y safonau llesiant y dylai'r cyhoedd eu disgwyl, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth o dan y Ddeddf.
- 1.19 Mae'r adroddiad hwn yn rhannu canfyddiadau astudiaeth ansoddol fach a gynhaliwyd yn 2019-2020 i gefnogi llinyn llesiant Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a dadansoddiad meintiol a gynhaliwyd yn 2022 o ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr Arolwg Cenedlaethol ar gwestiynau yn ymwneud â llesiant.
- 1.20 Yn yr adolygiad llenyddiaeth a gyhoeddwyd ar gyfer llesiant (Llewellyn et al., 2020), fe wnaethom ystyried a gwneud sylwadau ar y naws wrth gysyniadoli llesiant at ddibenion polisi cyhoeddus, ar lefel y boblogaeth ac ar lefel bersonol. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn derbyn y penderfynyddion llesiant fel y'u disgrifir yn natganiad y Gronfa Cyfleoedd Newydd (Llywodraeth Cymru, 2019) fel y fframwaith gweithio ar gyfer y Ddeddf. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad a'n trafodaeth o bedwar mesur yr Arolwg Cenedlaethol, sy'n cael eu hysgogi gan benderfynyddion llesiant ac sy'n berthnasol i NOF i raddau helaeth, yn meddu ar gynodiadau cysyniadol ac ymarferol gwahanol a dyma'r rhai mwyaf priodol ar gyfer ein dadansoddiadau (gweler adran 1.14).
- 1.21 Ar gyfer yr astudiaeth ansoddol, ceisiwyd cael barn a safbwyntiau pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol i ddeall a yw perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol a chanfyddiadau o wasanaethau gofal cymdeithasol wedi newid o ganlyniad i iaith llesiant. Mae'r archwiliad hwn yn cefnogi ymholi ynghylch a yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cyd-fynd â'r un diffiniadau a blaenoriaethau o ran llesiant y mae gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r gwasanaethau hynny yn eu deall a'u cymhwyso, ac, o ganlyniad, yn y Ddeddf. Roeddem hefyd yn dymuno archwilio beth yw ystyr y term 'llesiant' i'r bobl hyn, ac i ba raddau y mae'n atseinio â'u profiadau o'r gwasanaethau hynny. Roedd hyn yn ein galluogi i ystyried a yw'r diffiniad o lesiant a gymhwysir drwy'r Ddeddf yn cynnwys yn llawn yr holl agweddau ar lesiant

sydd o bwys i bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol. Er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o'r aliniad hwn, gwnaethom ofyn am farn pobl ar yr NOF a sut mae'n berthnasol i brofiadau llesiant pobl o fyw, a sut mae'r gwasanaethau gofal a chymorth y maent wedi'u defnyddio wedi effeithio ar eu canlyniadau cyfnewidiol. Mae'n bwysig nodi bod y data hwn yn ymwneud â'r cyfnod cyn COVID-19 yn unig.

- 1.22 Ar gyfer y dadansoddiad meintiol, ceisiwyd pennu pa newidiadau mewn llesiant a oedd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd 2014-2021, gan gynnwys unrhyw newidiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio'r pedwar cwestiwn llesiant cenedlaethol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gan nad yw'r Arolwg Cenedlaethol yn canfod a yw pobl yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn uniongyrchol ym mhob blwyddyn o'r arolwg (er ei fod mewn rhai blynyddoedd yn nodi a yw rhywun wedi cael cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth, naill ai drostynt eu hunain neu fel gofalwr), rydym yn defnyddio procsi i nodi cyfranogwyr yn yr arolwg a oedd yn debygol o fod â phrofiad o ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac archwilio pa newidiadau a pherthnasoedd rhwng ffactorau y gellid eu gweld yn y data hwn.
- 1.23 Mae'n bwysig nodi bod y dull o weinyddu'r Arolwg Cenedlaethol wedi newid yn ystod pandemig COVID-19; o ganlyniad, ni ellir cymharu data. Oherwydd yr anallu i ddewis unigolion sydd wedi derbyn gofal a chymorth yn uniongyrchol ym mhob blwyddyn o'r arolwg, ynghyd â'r diffyg data cyson dros amser, ni all y data a'r dadansoddiadau ond fod yn arwydd o farn a phrofiadau posibl, yn hytrach na thrwyadl.

Cwestiynau Ymchwil

- 1.24 Nod craidd yr astudiaeth ansoddol oedd archwilio sut mae pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru yn deall y cysyniad o lesiant a'u profiad o sut mae'n cael ei ddefnyddio'n ymarferol. Cynlluniwyd ein cwestiynau ymchwil i ategu ac ymestyn ar yr ymchwil arall a gynhaliwyd gennym fel rhan o'r gwerthusiad o'r Ddeddf, a'r adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r astudiaeth hon (Llewellyn et al, 2020). Ym mhob un o'r cwestiynau, mae 'cyfranogwyr' yn cyfeirio at bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.
1. A yw cyfranogwyr yn rhannu'r ddealltwriaeth o lesiant a ddefnyddir yn y Ddeddf a'r NOF?

2. Pa agweddau ar lesiant personol y mae cyfranogwyr yn eu codi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf na'r NOF?
3. Sut mae cyfranogwyr yn lleoli llesiant mewn perthynas â chysyniadau cydgysylltiedig, megis iechyd meddwl, ansawdd bywyd, boddhad â bywyd, a hapusrwydd?

- 1.25 Yn ogystal, gwnaethom ddefnyddio dulliau meintiol gan ddefnyddio data Arolwg Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i effaith y Ddeddf ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth drwy archwilio pa newidiadau mewn ymatebion yn ymwneud â llesiant a adroddwyd ar gyfer grwpiau a oedd yn debygol o gael eu cynnwys yn y boblogaeth hon.
- 1.26 I ddechrau, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r methodolegau ansoddol a meintiol a ddefnyddiwyd yn fanylach, cyn disgrifio'r canfyddiadau a ddeilliodd o bob agwedd ar yr astudiaeth. Mae'r canfyddiadau ansoddol yn rhoi trosolwg o'r dadansoddiad data thematig a wnaed ar ddata'r cyfweiliadau, gan ddangos gorgyffwrdd â dimensiynau craidd llesiant a nodwyd yn y NOF, yn ogystal â themâu ychwanegol sy'n codi o'r data. Yna caiff y rhain eu hystyried mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil a amlinellwyd uchod yn y Drafodaeth.
- 1.27 Rhychwant yr adroddiad hwn ydy casglu'r dystiolaeth am lesiant ynghyd, a thrwy hynny cynnig canolbwynt i'r egwyddor hon ar gyfer y rhai sydd â diddordeb. Rydyn ni'n casglu'r cyfryw themâu at ei gilydd yng nghrynodeb y ddogfen hon (Pennod 5) a chynnig argymhellion penodol i faes llesiant. Rhaid ystyried y rhain yng nghydestun y canfyddiadau cyffredinol, y casgliadau a'r argymhellion a geir yn yr Adroddiad Terfynol (Llewellyn et al., 2023).

2. Dulliau

Dulliau Ansoddol

Recriwtio

- 2.1 Er mwyn nodi cyfranogwyr, dosbarthwyd galwadau i rwydweithiau ymchwil a oedd yn bodoli eisoes a rhwydweithiau ymchwil newydd ar draws Cymru. Cysylltwyd â chydlynwyr ardal leol, rhwydweithiau gweithwyr cymdeithasol, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau, a sefydliadau gwirfoddol sy'n benodol i bob carfan gyda gwybodaeth am nodau ac amcanion yr astudiaeth. Cysylltwyd yn bennaf â chyfranogwyr mewn cysylltiad â'r porthorion hyn, a gyflwynodd yr astudiaeth i gyfranogwyr posibl. Pe bai cyfranogwyr posibl yn mynegi diddordeb mewn cymryd rhan, byddai aelod o'r tîm ymchwil yn mynd ar drywydd hynny. Yn ogystal â hyn, cysylltodd rhai o'r carfanau oedolion a phobl hŷn ag ymchwilwyr yn uniongyrchol ar ôl cael manylion yr astudiaeth.

Cyfranogwyr

- 2.2 Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 34 o gyfranogwyr defnyddwyr gwasanaeth ar draws pedair carfan oedran gwahanol: plant 5 i 13 oed (n=9); pobl ifanc 14 i 19 oed (n=9); oedolion 20 i 64 oed (n=8); a phobl hŷn 65 oed neu hŷn (n=8). Y nod oedd ymgorffori ystod o ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn pob carfan, er oherwydd materion recriwtio roedd y carfanau plant a phobl ifanc yn cynnwys gofalwyr ifanc yn bennaf.

Gweithdrefn

- 2.3 Cynhaliwyd cyfweiliadau penagored, wyneb yn wyneb, lled-strwythuredig yn unigol gydag oedolion a phobl hŷn, gyda phob un yn cymryd rhwng 25 a 90 munud. Er bod cyfweiliadau yn cael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg, cynhaliwyd pob un yn Saesneg. Roedd amserlenni cyfweld yn bennaf yr un fath rhwng y ddwy garfan hyn, ac fe'u datblygwyd i archwilio canfyddiadau cyfranogwyr o lesiant, pa agweddau ar eu bywydau y teimlwyd eu bod yn gwella neu wedi'u hamharu o hyn, eu rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol, ac i ba raddau y teimlwyd bod y rhain yn dylanwadu ar eu llesiant (gweler Atodiad 1 am amserlen cyfweld amlinellol). Cafodd awgrymiadau dilynol yn ymwneud yn benodol â dimensiynau'r NOF eu cynnwys hefyd i sefydlu pa mor berthnasol oedd y rhain i'r cyfranogwyr. Mae'r dimensiynau hyn fel a ganlyn:

- (i) lechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol

(ii) Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

(iii) Addysg, hyfforddiant a hamdden

(iv) Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

(v) Cyfraniad i gymdeithas

(vi) Sicrhau hawliau

(vii) Llesiant cymdeithasol ac economaidd

(viii) Addasrwydd llefy preswyl

- 2.4 Ar gyfer y carfanau plant a phobl ifanc, cynhaliwyd sesiynau cyfweld gydag un i bedwar cyfranogwr ar y tro. Cynigiwyd cyfweiliadau grŵp i'r holl gyfranogwyr, gan fod llenyddiaeth fethodolegol yn dangos y gall hyn greu profiad mwy cyfforddus a chefnogol i gyfranogwyr ymchwil iau; fodd bynnag, ni ddewisodd pob cyfranogwr fanteisio ar hyn. Roedd y sesiynau yn para rhwng 30 a 70 munud. Roedd sesiynau pobl ifanc yn defnyddio amserlen debyg i'r carfanau hŷn. Dechreuodd y trafodaethau yn gyffredinol drwy sefydlu dealltwriaeth bresennol o lesiant. Yn dilyn hyn, gofynnwyd am farn cyfranogwyr ar eu rhyngweithio â gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau partner eraill, yn ogystal â sut roedd y rhain yn dylanwadu ar eu hymdeimlad o lesiant.
- 2.5 Roedd yr amserlen carfanau plant yn amrywio o ran ymagwedd drwy ymgorffori gweithgareddau dulliau creadigol, gyda'r nod o gynyddu ymgysylltiad â chyfranogwyr iau. Yn dilyn trafodaeth grŵp cychwynnol ar lesiant a sut y cafodd y term ei ddeall a'i ddefnyddio, cynhaliwyd tri ymarfer ymchwil gwahanol.
- 2.6 **Gweithgaredd Un – Siarad am lesiant:** Roedd yr ymarfer 'map-eco' hwn yn cynnwys darparu dalen bapur mawr A3 i gyfranogwyr yn cynnwys ffigwr amlinellol yn y canol. Amgylchynwyd y ffigwr gan dri chylch consentrig. Teitl y cylch mwyaf mewnol oedd "yn siarad, gwrando a newid pethau", y cylch canol "yn siarad a gwrando ond ni all newid pethau" a, dywed y cylch allanol "Nid yw'n siarad nac yn gwrando arnaf ond gall newid pethau". Siaradwyd â'r cyfranogwyr drwy'r cylchoedd, gan drafod sut roedd y ffigwr yn eu cynrychioli ac yr oedd y cylchoedd yn ymwneud â gwahanol bobl neu sefydliadau yn eu bywydau oedd â rôl yn eu llesiant. Gofynnwyd i gyfranogwyr ysgrifennu enwau pobl neu sefydliadau yn y gwahanol gylychoedd yn seiliedig ar sut yr oeddent yn eu gweld. Cynigiwyd enghreifftiau fel 'fy

ngweithiwr cymdeithasol' neu 'fy ffrindiau' i gyfranogwyr er mwyn iddynt gael eu gosod yn y cylch mwyaf priodol.

- 2.7 **Gweithgaredd Dau – Trefnu llesiant:** Rhoddwyd dwy set o gardiau fflach lliw, gwahanol, ond, fel arall, unfath i'r cyfranogwyr. Roedd pob cerdyn fflach yn cynrychioli un o 24 maen prawf llesiant y NOF. Gofynnwyd i gyfranogwyr ddewis y pum peth yn eu bywydau yr hoffent eu gwella fwyaf ar gyfer eu llesiant o'r set gyntaf o gardiau. Yn dilyn hynny, gofynnwyd i gyfranogwyr ddewis pum peth o'u taflenni gwaith Gweithgaredd Un yr oeddent yn teimlo yr oedd y gofalwyr a'r gweithwyr wedi ceisio eu gwella er mwyn eu llesiant.
- 2.8 **Gweithgaredd Tri – Diffinio cymorth ar gyfer llesiant:** Rhoddwyd taflen waith A3 fawr i gyfranogwyr gyda llun o berson yn cerdded yn y ganolfan. Roedd dwy saeth yn ymestyn ymlaen ac yn ôl: roedd y saeth a oedd yn wynebu ymlaen yn cynnwys 'Pethau sy'n fy symud ymlaen' wedi'i hysgrifennu arni; roedd gan y saeth a oedd yn wynebu'n ôl 'Pethau sy'n fy nal yn ôl'. Gofynnwyd i gyfranogwyr ysgrifennu pethau yn eu bywydau yr oeddent yn teimlo oedd gwella eu bywydau o dan y saeth sy'n wynebu'r dyfodol, a'r pethau y teimlent oedd yn atal bywyd rhag gwella neu'n ei wneud yn waeth o dan y saeth oedd yn wynebu'n ôl.
- 2.9 Yn dilyn pob gweithgaredd, siaradodd y cyfranogwyr am eu hymatebion gyda'r ymchwilydd/ymchwilwyr gan ysgogi trafodaeth ar yr hyn yr oeddent yn ei weld yn bwysig i'w llesiant, beth neu bwy y teimlent oedd wedi helpu i wella eu bywydau, ac agweddau ar eu bywydau y teimlwyd eu bod yn niweidiol.
- 2.10 Cynhaliwyd yr holl weithgarwch recriwtio ac ymchwil cyn pandemig COVID-19, rhwng Medi 2019 a Chwefror 2020. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe.

Dadansoddiad Ansoddol

- 2.11 Cafodd recordiadau sain o gyfweiliadau a sesiynau grŵp, yn ogystal â delweddau o allbynnau gweithgaredd y garfan plant, eu trawsgrifio a'u llanlwytho i NVivo 12 ar gyfer dadansoddi data. Yn dilyn Ritchie & Spencer (1997) a Braun & Clarke (2006), datblygwyd fframwaith thematig terfynol dros bum cam ailadroddol: i) ymgyfarwyddo â'r trawsgrifiadau a'r delweddau; ii) datblygu fframwaith thematig cychwynnol ar draws carfanau; iii) codio data o'r cyfweiliadau a'r delweddau ar y fframwaith; iv) siartio pob thema gyda'i is-themâu a data cyfatebol; a v) mapio cysylltiadau neu berthnasoedd rhwng gwahanol themâu. Drwy gydol y broses hon, cynhaliwyd

gwiriadau rheolaidd gyda'r tîm ymchwil i ddilysu dehongliadau o leoliad y data a'r perthnasoedd rhwng ac o fewn carfanau.

Dulliau Meintiol

Ffynhonnell data

- 2.12 Yr unig ffynhonnell data sydd wedi'i thargedu'n benodol at Gymru sy'n defnyddio'r pedwar cwestiwn ONS sy'n gofyn yn uniongyrchol i ymatebwyr am eu llesiant yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Am y rheswm hwn dyma'r ffynhonnell ddata optimaidd a fyddai'n ein galluogi i ymchwilio i effaith y Ddeddf ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalywyr, ac i roi cyd-destun ar gyfer y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r tri phrif gwestiwn ymchwil.
- 2.13 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn arolwg traws-adrannol, ar raddfa fawr, sy'n rhedeg drwy'r flwyddyn ar draws Cymru gyfan. Fe'i cynlluniwyd i gynrychioli'r holl oedolion 16 oed neu drosodd sy'n byw mewn cartrefi preifat. Mae'n eithrio pobl sy'n byw mewn llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a gwely a brechwast, a chanolfannau'r fyddin) a phlant. Felly, ni fydd yn cynnwys oedolion sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol mewn cartref gofal, na phlant sy'n derbyn gofal a chymorth (cyfyngiad ar yr Arolwg Cenedlaethol yn y cyd-destun hwn).
- 2.14 Cychwynwyd yr arolwg gyntaf fel yr Arolwg Cenedlaethol yn 2012 ac fe'i hailgynlluniwyd yn 2016 i gynnwys Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg Oedolion Egniol, Arolwg Celfyddydau yng Nghymru, ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Hyd at fis Mawrth 2020, cynhaliwyd yr arolwg wyneb yn wyneb yng nghartrefi pobl a chyflawnodd sampl o tua 12,000 bob blwyddyn.
- 2.15 Ers yr achosion o COVID-19, mae wedi'i gynnal dros y ffôn ac wedi sicrhau maint sampl tebyg. Yn ystod mis Mai i fis Rhagfyr 2020, ailgysylltwyd ag ymatebwyr o flynyddoedd cynharach i gymryd rhan. O fis Ionawr 2021 dychwelodd yr arolwg i ddetholiad sampl ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Swyddfa'r Post. Yn 2021-22 cymerodd yr arolwg tua 35 munud i'w gwblhau ac roedd yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys plant ac addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd y boblogaeth, diwylliant a'r Gymraeg. Cynigir cymhelliant ariannol bach i ymatebwyr gymryd rhan, ac roedd y gyfradd ymateb tua 40% yn 2021-22.
- 2.16 Mae'r dadansoddiad meintiol yn ystyried y gwahaniaeth mewn llesiant yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar 6 Ebrill 2016. Mae hwn yn diffinio'r cyfnod cyn y Ddeddf fel Ebrill 2013-Mawrth 2016 a'r cyfnod ar ôl y Ddeddf fel Ebrill 2016 - Mawrth 2021.

- 2.17 Er mwyn monitro llesiant personol ar draws y DU, ymgorfforodd yr ONS bedwar cwestiwn arolwg o fewn y rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol. Y pedwar mesur o lesiant personol a gwmpesir gan y cwestiynau yw:
1. Boddhad â Bywyd ("Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd heddiw?")
 2. Pa mor werth chweil yw bywyd ("Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn fuddiol?")
 3. Hapusrwydd ("Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?")
 4. Pryder ("Ar raddfa lle mae 0 yn "ddim yn bryderus o gwbl" a 10 yn "hollol bryderus", yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?")
- 2.18 Mae'r pedwar cwestiwn yn cael eu mesur ar raddfa 0 i 10 gyda 0 yn dynodi "ddim o gwbl" a 10 yn cynrychioli "yn hollol". Ar gyfer sgorau boddhad â bywyd, pa mor werth chweil yw bywyd, a hapusrwydd, mae 0 i 4 yn cael eu dosbarthu fel isel, 5 i 6 fel canolig, 7 i 8 fel uchel, a 9 i 10 fel uchel iawn. Ar gyfer pryder, caiff Sgorau eu grwpio fel bod 0 i 1 yn cael eu dosbarthu fel isel iawn, 2 i 3 yn isel, 4 i 5 yn ganolig, a 6 i 10 yn uchel. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol ers 2014-15; cynhwyswyd fersiwn wedi'i haddasu o 'boddhad â bywyd' a 'pha mor werth chweil yw bywyd' yn arolwg 2013-14, ond ni chynhwyswyd cwestiynau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar 'pryderus' a 'hapusrwydd'.
- 2.19 Mae gan yr Arolwg Cenedlaethol amrywiol gwestiynau eraill sy'n ymwneud â'r wyth agwedd ar lesiant a nodwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd fel y'u gwerthuswyd yn adroddiad NOF.⁶ Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â phenderfynyddion llesiant, ond nid ydynt yn fesurau uniongyrchol o lesiant, ac felly nid ydynt yn berthnasol i ddiben ein dadansoddiadau.
- 2.20 Mae set ddata Cymru gyfan yn ystyried canlyniadau llesiant ar gyfer poblogaeth Cymru. Defnyddiwyd hyn yn y dadansoddiad hwn i ddeall y tueddiadau cyffredinol mewn llesiant yng Nghymru yn ystod y cyfnodau cyn ac ar ôl y Ddeddf. At hynny, gellir gwneud cymariaethau rhwng y boblogaeth gyffredinol ac unigolion sy'n darparu neu'n derbyn gofal a chymorth y mae'r Ddeddf wedi'i thargedu atynt.
- 2.21 Er bod y Ddeddf wedi'i thargedu at unigolion sy'n darparu neu'n derbyn gofal a chymorth, nid yw'n bosibl adnabod yr unigolion hyn yn uniongyrchol ym mhob

⁶ Gweler [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol](#)

blwyddyn o'r Arolwg Cenedlaethol (gofynir bob yn ail flwyddyn). Er mwyn gwerthuso'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, a nodi sut mae llesiant yn ymateb i newidiadau mewn polisi a ffactorau cymdeithasol ehangach, fe wnaethom ddewis defnyddio data arolwg ar gyfer y bobl hynny a nododd salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol (LLSIDI) fel procsi ar gyfer y rhai sy'n derbyn cymorth, gan fod hyn yn cael ei adrodd yn gyson bob blwyddyn. Mae'n bosibl y bydd yr unigolion hyn yn cael cymorth fel y'i diffinnir gan y Ddeddf neu beidio, ond mae'n bosibl bod cyfran sylweddol ohonynt yn cael gofal a chymorth. Felly, penderfynom ddefnyddio'r grŵp hwn fel procsi yn absenoldeb gwybod pa unigolion oedd wedi derbyn gofal a chymorth bob blwyddyn. Ni wyddom pwy sy'n cael gofal a chymorth ond nid ydym wedi ei adrodd fel LLSIDI. Yn Arolwg Cenedlaethol 2020-2021 roedd 87% o ymatebwyr a hunan-adroddodd eu bod yn defnyddio gofal cymdeithasol hefyd yn hunan-adrodd bod ganddynt salwch hirdymor cyfyngol (LLTI).⁷ Er nad yw defnyddio diffiniad LLSIDI fel procsi ar gyfer defnyddwyr gofal cymdeithasol yn ddelfrydol, yn absenoldeb data manylach, mae data LLTI yn awgrymu bod ein procsi yn rhesymol.

- 2.22 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys gwybodaeth am statws gofalwr, fodd bynnag, mae'r cwestiwn perthnasol wedi'i ddiwygio dros amser sy'n ei wneud yn anaddas ar gyfer ein dadansoddiadau. Felly rydym yn cyfyngu ein dadansoddiad o lesiant gofalwyr i adrodd ar ystadegau disgrifiadol yn hytrach na dadansoddiad manwl, i ganiatáu ar gyfer nodi tueddiadau cyffredinol, yn ystod y blynyddoedd cyn ac ar ôl y Ddeddf.
- 2.23 Er mwyn canfod a yw'r Ddeddf wedi cael effaith ar lesiant mewn gwahanol grwpiau o'r boblogaeth, byddwn yn cymharu tueddiadau cyffredinol mewn llesiant y rhai sy'n darparu neu'n derbyn gofal, sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y Ddeddf, â'r boblogaeth gyffredinol sydd yn llai tebygol o fod wedi profi newidiadau mewn llesiant o ganlyniad i'r Ddeddf.

Dadansoddiad Meintiol

- 2.24 Adroddir ystadegau disgrifiadol (cyfwng hyder cymedrig a 95% (CI)) ar gyfer pedwar mesur llesiant personol ONS ar gyfer ymatebwyr sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru, pobl ag LLSIDI a gofalwyr. Yn y dadansoddiad sylfaenol, defnyddiwyd dull newidiol offerynnol syml i nodi ymatebion cyn ac ar ôl gweithredu'r Ddeddf.

⁷ Darparwyd data Arolwg Cenedlaethol 2020-2021 gan Lywodraeth Cymru 08.12.2022

Gwahanodd dadansoddiad estynedig y cyfnod ar ôl y Ddeddf yn is-gyfnodau cyn COVID-19 (Ebrill 2016 - Mawrth 2020) ac yn ystod COVID-19 (Ebrill 2020 - Mawrth 2021). Amcangyfrifwyd Sgorau gan ddefnyddio model llinol cyffredinol (GLM) a chawsant eu haddasu ar gyfer cyd-newidynnau perthnasol a oedd ar gael ar gyfer holl flynyddoedd y gwerthusiad: sef, rhyw, grŵp oedran, ardal drefol/gwledig, achosion cyn neu ar ôl COVID-19, awdurdod lleol, ymateb i'r cwestiwn am iechyd cyffredinol a chwarterl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Ni roddwyd unrhyw addasiad ar gyfer data coll. Defnyddiwyd Stata 17.0 ar gyfer pob dadansoddiad ystadegol.⁸

⁸ StataCorp. 2021. *Stata Statistical Software: Release 17*. College Station, TX: StataCorp LLC.

3. Canfyddiadau

Canfyddiadau Ansoddol

- 3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau ansoddol mewn perthynas â phob un o'r carfanau oedran y gwnaethom gynhyrchu data gyda nhw. Mae'r grŵp oedran hwn yn datgelu materion penodol ar waith ar gyfer pob un o'r carfanau mewn perthynas â llesiant.
- 3.2 Dangosodd dadansoddiad thematig o'r data cyfweld a dulliau creadigol gydlynid â'r themâu a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth blaenorol ar lesiant (Llewellyn et al., 2020) ac â'r llenyddiaeth ehangach ar lesiant. Daeth llawer o gysyniadau a lluniadau llesiant i'r amlwg ar draws pob carfan, er bod dehongliadau cynnil yn amlwg ar draws gwahanol gyfnodau o gwrs bywyd. Trafodir y canfyddiadau o ran eu goblygiadau posibl o ran sut y caiff llesiant ei ddiffinio a'i fesur mewn polisi.
- 3.3 Mae'r adran yn cloi gyda chanfyddiadau nad ydynt wedi'u hamlinellu yn ôl grŵp oedran sy'n cynnig cipolwg ar effaith y Ddeddf ar lesiant, gan ystyried y berthynas rhwng disgwyliadau, profiad byw, a'r ddealltwriaeth o lesiant sydd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Plant, Pobl Ifanc, a Llesiant

- 3.4 Cynhyrchodd ein hymchwil ansoddol gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol benderfynyddion llesiant sy'n atseinio ag ymchwil flaenorol sy'n archwilio'r pwnc hwn a phlentyndod yn ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cael perthnasoedd cryf, cefnogol ac ymddiriedus; cyfleoedd hamdden a dysgu; ac ymdeimlad o reolaeth personol a chyfranogiad wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau.
- 3.5 Mae'r llenyddiaeth ar blant a phobl ifanc mewn gofal yn cysylltu eu llesiant â datblygiad **perthnasoedd domestig, teuluol a rhyngbersonol cadarnhaol** (Selwyn et al., 2017; Long et al., 2017). Er nad oedd ein sampl yn cynnwys llawer o achosion o blant neu bobl ifanc mewn gofal, roedd pwysigrwydd perthnasoedd proffesiynol a phersonol neu deuluol cryf i'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yn ein sampl yn amlwg iawn. Yn unol â'r llenyddiaeth hon a'n data, mae'r NOF yn nodi perthnasoedd cryf fel conglaen llesiant, ac felly mae thema perthnasoedd yn codi dro ar ôl tro yn yr adran hon.

3.6 Fel y nodwyd yn y llenyddiaeth ehangach, ystyrir **cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau** ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yn aml yn ganolog i'w llesiant (Selwyn et al, 2017). Mae cyfleoedd i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywydau yn hawl gyffredinol i bob plentyn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Cenhedloedd Unedig, 1989) a chydabyddir pa mor ganolog yw'r rheolaeth hon i lesiant yn y datganiadau o NOF sy'n ymwneud â hawliau.

3.7 Lle mae plant a phobl ifanc yn byw mewn amodau heriol sy'n gofyn am ymyrraeth gofal cymdeithasol, yn aml mae angen cymorth a chyfle ychwanegol i'w galluogi i gyfranogi. Mae hyn yn gofyn am nid yn unig gwranddo ar farn plant a phobl ifanc ond hefyd ymateb iddynt a bod yn atebol am benderfyniadau a wneir a ddylai fod wedi cael eu llywio gan y safbwyntiau hynny. Nododd sawl cyfranogwr fod rhyngweithio â gweithwyr cymdeithasol a ffigurau eraill o awdurdod yn broblemus yn hyn o beth:

“Maen nhw [gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol] i gyd wedi ceisio gwneud pethau a heb wneud dim byd mewn gwirionedd. Ac maen nhw wedi ein symud ni o un gofrestr i'r llall ac rydyn ni wedi mynd i fyny'r rhestr ac yn ôl i lawr oherwydd dydyn nhw ddim yn gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd.” (YA01)

“Cyn i bopeth fynd wyneb i waered yn y gwasanaethau cymdeithasol, roedd gennym ni dîm 16+. Roedd hynny'n wych. Ond wn i ddim beth ddigwyddodd. Rwy'n meddwl bod y cyllid wedi'i dorri neu rywbeth. Yn sydyn, diflannodd y tîm. Ni chawsom unrhyw hysbysiad o'r hyn a ddigwyddodd, na'i fod wedi mynd hyd yn oed.” (AD04)

3.8 Amlygodd y ddau gyfranogwr a ddyfynnwyd uchod broblemau o ran cael gwrandawriad a chyfranogi mewn gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun gwasanaethau cymdeithasol. Ar gyfer YA01, roedd hyn yn ymwneud â materion yn cynyddu ac yn gostwng yn barhaus yn eu cartref teuluol a'u gadawodd â'r argraff, er ei bod yn ymddangos bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwranddo, camau gweithredu cyfyngedig oedd yn cael eu cymryd. Yn yr un modd, ar gyfer OC04 roedd y newid o ofal cymdeithasol plant i ofal cymdeithasol oedolion wedi achosi rhywfaint o anghysondeb yn lefel eu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau: roedd agweddau ar eu bywyd lle'r oeddent yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu nodi ac yn cael sylw (e.e. cyllid ar gyfer aelodaeth campfa a dillad) ond roedd penderfyniadau allweddol eraill allan o'u dwylo (fel ble roedden nhw'n byw):

Cyfwelydd: "Ni fydddech chi wedi dewis yr ardal hon?"

Ymatebydd: "Ddim mewn gwirionedd. Dim ond oherwydd bod fy mam yn byw yma hefyd. A dwi'n mynd yn ofidus iawn os dw i'n ei gweld hi. Achos dydw i ddim wir eisiau siarad â hi oherwydd yr holl bethau a ddigwyddodd. Dyna un o'r rhesymau pam na fyddwn yn dod yn ôl yma mewn gwirionedd" (AD04)

3.9 O ystyried cyd-destun gofal AD04 a phroblemau hanesyddol yn eu perthynas â'u mam, yn ddelfrydol byddai penderfyniadau allweddol megis lleoliad eu bywydau yn golygu gwneud penderfyniadau ar y cyd. Roedd y diffyg gwneud penderfyniadau ar y cyd yn golygu, er bod llawer o agweddau ar y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu derbyn yn gadarnhaol, mewn rhai agweddau allweddol roedd lefel o ddiffyg ymddiriedaeth yn parhau. Er mwyn i gyfranogiad effeithiol ddigwydd, mae'n bwysig bod gan blentyn neu berson ifanc ymddiriedaeth yn yr oedolion o'u cwmpas sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau, fel eu bod yn teimlo'n hyderus i siarad am eu barn a'u profiadau (Cossar et al., 2016). Mae cyfathrebu effeithiol ynghylch gwneud penderfyniadau yn agwedd graidd ar hyn. Mae perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol yn aml yn allweddol i blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at ofal, nad oes ganddynt lawer o oedolion eraill y gellir ymddiried ynddynt na rhai cefnogol yn eu bywydau, ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb i'w galluogi i deimlo eu bod yn cael eu gweld a'u clywed ar faterion sy'n ymwneud â'u bywydau. Gyda pherthnasoedd wedi'u hamlygu dro ar ôl tro yn y llenyddiaeth fel rhywbeth sy'n ganolog i lesiant, gall unrhyw ddiffyg ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol o amgylch y plentyn neu'r person ifanc fod yn niweidiol i'w allu i gyfranogi a hefyd i'w lesiant yn ehangach.

3.10 Roedd **perthnasoedd personol ac ymdeimlad o berthyn** yn aml yn dod i'r amlwg mewn naratifau cyfranogwyr fel ffynhonnell gref o gefnogaeth emosiynol ar gyfer eu llesiant, gan amlygu pa mor bwysig yw hi i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol flaenoriaethu ansawdd perthnasoedd plant a phobl ifanc wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

"Mae fy ffrindiau yno i mi fel arfer ac fel arfer yn fy helpu drwy'r amser. Mae fel pe baent yn ad-dalu'r caredigrwydd. Ac yna fy mam, mae hi'n help mawr i mi, yn enwedig pan dw i'n drist, oherwydd mae hi'n ceisio fy helpu" (CH08)

"Fy ffrindiau gorau. Maen nhw'n deall beth rydw i wedi bod yn mynd drwyddo" (YA09)

"Ie. Fel fy nau ffrind agosaf, gallaf siarad â nhw am y peth ... ac mae un person yn fy ngholeg y gallaf siarad â nhw mae'n debyg, y swyddog llesiant" (YA06)

4.8 **Dewis dros lefel rheolaeth dros gynllunio gofal:** Er gwaethaf fframio cadarnhaol gofal cymdeithasol 'personol' yn y Ddeddf, gan gynnwys y cyfrifoldeb o reoli eich gofal a'ch cymorth eich hun, nododd sawl cyfranogwr fod y cyfrifoldeb hwn o dan y Ddeddf yn ffynhonnell straen niweidiol i'w llesiant. Gellid cynnig felly mai elfen o lesiant sy'n absennol o'r NOF fyddai'r gallu i ddewis i ba raddau y gofynnir i unigolyn fabwysiadu'r cyfrifoldeb am reolaeth dros ei gynllunio gofal a'i gyllidebau cysylltiedig. Yn bwysig, byddai hyn hefyd yn effeithio ar y Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf ochr yn ochr â'r NOF; gall hyn fod o gymorth i wella llesiant y rhai sydd heb yr amser, y gallu na'r awydd i gymryd rhan mewn cynllunio gofal a rheoli cyllidebau.

4.9 Mae lefelau dymunol o asiantaeth a hyder ynghylch rheoli gofal a chymorth yn amrywio rhwng unigolion. Fodd bynnag, nid yw'r ymgyrch polisi tuag at ofal cymdeithasol personol yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r amrywioldeb hwn. Gwneir barnau ynghylch a yw rhywun yn gallu rheoli eu gofal gan weithwyr proffesiynol yn unol â'u galluedd meddyliol tybiedig, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddewisiadau, galluedd ffordd o fyw, a llesiant unigolyn. Mae'r canfyddiad hwn yn berthnasol i gwestiwn ehangach, mwy sylfaenol ynghylch personoli a gofal cymdeithasol: a yw bob amser yn rhesymol disgwyl i unigolyn sy'n cael gofal a chymorth gael gwell dealltwriaeth o'i anghenion llesiant ei hun, a'r gallu i fynegi'r anghenion hynny a gweithredu arnynt, na gweithiwr proffesiynol? Mae'r cwestiwn hwn y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon ac yn rhy gymhleth i'w ateb yma. Serch hynny, mae rhai o'r naratifau a rennir gan gyfranogwyr yn awgrymu y gallai rhagdybiaeth bod mwy o reolaeth unigol dros ofal a chymorth yn gyffredinol gadarnhaol ar gyfer llesiant fod yn broblematig.

Sut mae cyfranogwyr yn lleoli llesiant mewn perthynas â chysyniadau cydgysylltiedig, megis iechyd meddwl, ansawdd bywyd, boddhad â bywyd, a hapusrwydd?

4.10 O fewn ein data, daeth llesiant i'r amlwg fel term ymbarél a oedd yn cwmpasu'r holl gysyniadau rhyng-gysylltiedig uchod i ryw raddau ac yn dibynnu ar bob un ohonynt yn cael eu cyflawni'n ddigonol er mwyn cyflawni rhyw ymdeimlad o 'llesiant cadarnhaol'. I lawer o gyfranogwyr roedd yn ymddangos bod y cysyniad o lesiant yn cyd-fynd yn bennaf o amgylch iechyd corfforol a meddyliol, gyda chyfeiriad

ychwanegol at gael eu barn a'u dewisiadau eu hunain yn cael eu parchu yn eu bywyd bob dydd.

4.11 Mae gan y cysyniad ansawdd bywyd ei sail mewn llenyddiaeth iechyd ac mae'n cyflwyno man cyfarfod rhwng cyflwr corfforol a llesiant cymdeithasol. Roedd cymorth priodol ar gyfer iechyd corfforol ac effaith cyflyrau iechyd ar fywydau bob dydd yn bwnc aml iawn i gyfranogwyr sy'n oedolion ganolbwyntio arno, er yn llai felly i blant ac oedolion ifanc, efallai oherwydd llai o broblemau iechyd corfforol yn eu profiad bywyd. Yn yr ystyr hwn, roedd yn ymddangos bod oedolion a oedd yn cymryd rhan yn lleoli ansawdd bywyd – yn ei ddiffiniad meddygol – fel conglaen, ond nid llesiant cyfan. Mewn geiriau eraill, yng nghanol bywyd ac yn ddiweddarach mewn bywyd mae'n ymddangos bod safon byw sy'n briodol i gyflwr corfforol yn allweddol i sicrhau llesiant cadarnhaol.

4.12 Roedd AD01 yn arbennig o gryf ar bwysigrwydd ansawdd bywyd i lesiant, gan rannu eu barn y dylai eu gofal gael ei addasu i'w hanghenion meddygol er mwyn sicrhau y gallent barhau i ymarfer corff heb gael eu cyfyngu gan eu hiechyd corfforol. Amlygodd AD02, AD03, AD06, ac YA03 a oeddent mewn poen ai peidio y diwrnod hwnnw neu eu hiechyd corfforol fel maen prawf craidd ar gyfer ymdeimlad o lesiant.

“I mi, mae'r gair llesiant, fel cyflwr person. Felly eu cyflwr corfforol a meddyliol a pha mor dda ydyn nhw yn feddyliol ac yn gorfforol ... Felly mae'n ymwneud â sicrhau bod unigolyn yn iawn yn gorfforol ac yn feddyliol a gwneud yn siŵr ei fod yn sefydlog ac yn cael y cymorth sydd ei angen arno” (AD06)

4.13 O hyn gallwn ddeall efallai nad yw ansawdd bywyd yn gysyniad gwahanadwy oddi wrth lesiant oedolion a phobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth a bod yn rhaid ei ymgorffori yn ein dealltwriaeth. Gall goblygiadau hyn fod yn gyfuniad pellach o ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol i'w lleoli fel rhai sydd wedi'u cydgysylltu'n llawn. Fodd bynnag, er y gall ansawdd bywyd, mewn agwedd gorfforol, fod yn angenrheidiol i sicrhau llesiant, efallai nad yw'r berthynas hon yn un ddwyochrog; efallai y caiff anghenion iechyd corfforol rhywun eu diwallu'n llawn ac eto os na roddir sylw i agweddau eraill ar lesiant yna gall ymdeimlad person o lesiant fod yn isel.

4.14 Soniodd nifer o gyfranogwyr yn uniongyrchol am iechyd meddwl, ochr yn ochr â syniadau cysylltiedig megis 'straen' neu 'bryder', fel rhywbeth sy'n bwysig i'w llesiant. Yn ddiddorol, daeth hyn i'r amlwg yn gymharol aml mewn perthynas â sawl

dangosydd yn yr NOF gan gynnwys **sicrhau hawliau, llety, perthnasoedd, hamdden ac iechyd corfforol**, yn ogystal â ffactor ynddo'i hun ac ohono'i hun. O fewn maes pob dangosydd, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai eu llesiant emosiynol gael ei ddylanwadu'n gadarnhaol ac yn negyddol, gyda gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn. Er enghraifft, tynnodd AD01 ac AD07 sylw at y modd yr oedd rhyngweithio negyddol â gweithwyr cymdeithasol, neu'r gwasanaethau yn ehangach, wedi arwain at effeithiau andwyol ar eu hiechyd meddwl. Yn yr un modd, rhoddodd AD03 rai o'u problemau iechyd meddwl hanesyddol mewn cyd-destun o ran unigrwydd ac absenoldeb perthnasoedd personol, rhywbeth a gafodd ei leddfu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ymyrryd ac yn cynnig llety gwarchod. Daeth natur gydgysylltiedig llawer o ddangosyddion NOF yn fwy amlwg wrth i gyfranogwyr eu fframio mewn perthynas â materion iechyd meddwl.

- 4.15 Roedd rhai cyfranogwyr yn glir iawn bod 'teimlo'n hapus' yn agwedd graidd ar lesiant, ond yn ddiddorol daeth hyn i'r amlwg mewn ffordd benodol iawn. Drwy gydol y cyfweiliadau lle'r oedd cyfranogwyr yn sôn am deimlo'n 'hapus', roeddent fel arfer yn seilio hyn ar gyfathrebu cadarnhaol, ymddiriedaeth, a phrofiadau cymdeithasol, gan awgrymu bod 'hapusrwydd' i lawer o gyfranogwyr yn gyflwr llesiant sy'n gysylltiedig yn benodol â pherthnasoedd o ansawdd. Amlygodd OP01 ac YA09 fod amseroedd da ac ymddiriedaeth gyda gweithwyr proffesiynol yn eu cefnogi yn hanfodol i'w synnwyr hapusrwydd eu hunain, tra bod AD06 yn adrodd sut roedd perthnasoedd gyda'u teulu ac, yn bwysig, y gallu i'w cefnogi yn rhywbeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo hapusrwydd. Ehangodd OP02 y diffiniad hwn, gan drafod sut yr oeddent yn teimlo hapusrwydd yn eu diogelwch a theimlo'n ddiogel yn eu cartref gofal gyda rhyddid mewn perthynas â gweithgareddau, teimlad a adleisiwyd gan YA09, a oedd yn cysylltu hapusrwydd â gallu mynegi'ch hun trwy hobiau. Mae'r data hyn yn awgrymu bod hapusrwydd i'n cyfranogwyr yn cwmpasu'r agweddau mwy emosiynol ar lesiant mewn perthynas â pherthnasedd a dwyochredd.
- 4.16 Yn olaf, er mai anaml y crybwyllwyd yn uniongyrchol gan gyfranogwyr, roedd 'boddhad â bywyd' wedi'i blethu â nifer o themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad, yn aml mewn cysylltiad â themau cysylltiedig eraill megis 'ansawdd bywyd'. Yn gyffredinol, roedd boddhad yn ymwneud â materion yn ymwneud â rheoli a rheolaeth, a ddangoswyd yn fwyaf amlwg trwy ymreolaeth wrth benderfynu ar weithgareddau hamdden neu o ddydd i ddydd. Daeth enghraifft sylfaenol o

fodddhad bywyd a ddylanwadwyd yn gadarnhaol trwy dripiâu dydd AD06 a drefnwyd gan ofalwyr, a drafodwyd dros amser. Yn yr un modd, roedd adroddiadau OP07 ar eu hymwneud â gweithgareddau yn eu cartref gofal yn awgrymu bod y rhain yn chwarae rhan allweddol yn eu llesiant a'u mwynhad o fywyd o ddydd i ddydd. Fel gwrthbwynt, teimlai AD01 fod yr agweddau ar fywyd sy'n cynnig boddhad iddynt wedi'u cwtdogi gan ddiffyg cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Eto, fel gyda'r cysyniadau a amlinellwyd uchod, mae'n ymddangos bod ymdeimlad defnyddwyr gwasanaeth o fodlonrwydd bywyd wedi'i ddylanwadu'n gadarnhaol ac yn negyddol gan eu rhyngweithio â'r gwasanaeth trwy gysylltiad â gweithgareddau neu rwydweithiau cymdeithasol, cyngor ar faterion llety, ac weithiau yn eu cyfraniad i gymdeithas. Wrth ystyried pob un o'r cysyniadau cydgysylltiedig hyn, dylid llywio'r modd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ceisio darparu cymorth a chefnogaeth er mwyn gwneud y mwyaf o botensial unigolion ar gyfer llesiant cadarnhaol.

Sut yr adlewyrchir gweithrediad y Ddeddf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru?

- 4.17 Mae ein dadansoddiadau'n awgrymu, yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, y bu gostyngiadau bach mewn llesiant ar draws Cymru; dangosodd sgorau ar gyfer gwerth bywyd a mesurau hapusrwydd ostyngiadau bach ond ystadegol arwyddocaol, a gwelwyd cynnydd ar gyfer pryder hefyd. Mae hyn yn awgrymu bod gweithredu'r Ddeddf yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn llesiant yng Nghymru; ond nid yw'r dadansoddiadau'n awgrymu bod y Ddeddf yn achosi newid yn uniongyrchol. Mae llesiant yn gysyniad cymhleth, sy'n cael ei effeithio gan ffactorau amrywiol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Ddeddf. Yn ogystal, mae'r Ddeddf wedi'i thargedu at y rhai sy'n derbyn neu'n darparu gofal a chymorth, felly mae'n annhebygol y bydd unrhyw leihad mewn llesiant yn y boblogaeth gyffredinol yn cael ei achosi'n bennaf gan y Ddeddf. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli ein dadansoddiadau, ac yng nghyd-destun y newidiadau cefndirol hyn.
- 4.18 Roedd y Ddeddf yn un o lawer o ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar lesiant yn ystod y cyfnod samplu. Er enghraifft, gwelwyd gostyngiadau sylweddol mewn llesiant ar draws pob grŵp yn ystod yr achosion o COVID-19. Er bod disgwyl y canfyddiadau hyn oherwydd y cyfnodau clo a osodwyd gan y llywodraeth a chyfyngiadau ar ryddid unigolion, ni ellir cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod hwn yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yng nghynllun yr arolwg.

- 4.19 Mae cyfyngiadau i'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad, nid lleiaf y ffaith bod y dull dadansoddol yn awgrymu cysylltiad yn hytrach nag achosiaeth. Yn ogystal, daw'r data a ddefnyddiwyd o arolwg cyffredinol o'r boblogaeth ac mae'n bosibl na fydd y procsi a ddewiswyd yn dal y boblogaeth sy'n derbyn gofal a chymorth yn gywir. Yn ogystal, bu newidiadau yn y modd y cynhaliwyd yr arolwg dros y cyfnod o ddiddordeb, gan gynnwys y dull cyflwyno a hyd cyfartalog, a allai fod wedi arwain at wahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn ymateb i gwestiynau o ddiddordeb. At hynny, nid yw cynnwys yr arolwg yn sefydlog o un rownd arolwg i'r llall, gyda rhai cwestiynau'n cael eu defnyddio mewn rhai blynyddoedd ac nid mewn eraill.
- 4.20 Nid yw'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys unrhyw ddata ar gyfer oedolion sy'n byw mewn llety sefydliadol sy'n fwy tebygol o fod angen cymorth gofal. Mae hepgor unrhyw ddata ar blant yn gyfyngiad pellach ac mae'r Ddeddf hefyd wedi'i thargedu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.
- 4.21 Roedd dadansoddiadau is-grŵp yn ystyried unigolion â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol (LLSIDI). Dewiswyd hwn fel procsi ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal oherwydd argaeledd yn yr Arolwg Cenedlaethol drwy gydol yr astudiaeth. Er ei bod yn bosibl y byddai'r unigolion hyn yn derbyn gofal a chymorth, nid yw'n cynnwys yr holl unigolion sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiwn sy'n caniatáu adnabod pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, ni chafodd hwn ei ddewis i'w ddadansoddi oherwydd ei fod wedi'i hepgor mewn rhai blynyddoedd o'n sampl.
- 4.22 Mae gan y Ddeddf oblygiadau i ofalwyr. Mae ein dadansoddiad wedi edrych ar ystadegau disgrifiadol ar gyfer y rhai sy'n nodi eu bod yn ofalwyr ond nid yw wedi gallu cynnal dadansoddiad llawn o'r set ddata hon oherwydd newidiadau yng nghynllun yr arolwg gan gynnwys newidiadau i p'un a yw unigolion yn ofalwyr.
- 4.23 Serch hynny, roeddem yn gallu defnyddio pedwar mesur llesiant ONS a gasglwyd yn gyson drwy gydol cyfnod yr astudiaeth. Mae'r pedwar mesur llesiant wedi rhoi cipolwg ar sut mae gwahanol agweddau ar lesiant unigolion wedi newid ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli ein dadansoddiadau, gan fod y Ddeddf yn un o lawer o ffactorau posibl sy'n dylanwadu ar lesiant y boblogaeth o ddiddordeb dros gyfnod yr astudiaeth; felly, er ein bod yn cyflwyno data ar newidiadau mewn llesiant ers cyflwyno'r Ddeddf, nid yw'n bosibl yn y math hwn o astudiaeth briodoli'r newidiadau hyn i'r Ddeddf yn unig.

4.24 Mae'n ymddangos bod yr achosion o COVID-19 yn 2020 a'r cyfyngiadau cysylltiedig a osodwyd ar gymdeithas yng Nghymru wedi cael effaith negyddol ar bob mesur llesiant, gyda'r rhai sy'n byw â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu yn profi'r gostyngiadau mwyaf. Er nad yw hyn yn syndod, mae hyn yn debygol o liniaru unrhyw welliant mewn llesiant sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Mesur Llesiant o dan y Ddeddf

4.25 Arweiniodd ein canfyddiadau at rywfaint o fyfyrion ar y goblygiadau ar gyfer mesur llesiant o dan y Ddeddf. Yma rydym yn cyfeirio at y tri grŵp mesur a amlinellwyd gan Dolan & Metcalfe (2013): i) gwerthusiad; ii) mesurau profiad; a iii) mesurau ewdemonaid (gweler Tabl 5.1 am enghreifftiau).

Tabl 5.1: Mesurau a chymhwysiad llesiant Dolan a Metcalfe (2013) yn Llywodraeth Cymru

Mesurau Llesiant Dolan a Metcalfe	Llywodraeth Cymru
Gwerthusiad	Mae cwestiynau a dangosyddion boddhad â bywyd wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru e.e., 'Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd heddiw?' er bod y rhain yn bodloni meini prawf Dolan a Metcalfe ar gyfer monitro cynnydd yn hytrach na llywio neu arfarnu polisi.
Profiad	Mae cwestiynau gorbryder a hapusrwydd hefyd wedi'u cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru – 'Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?'; 'Ar y cyfan, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?'
Ewdemonaid	Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn ymgorffori cwestiwn ar werth bywyd - 'Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?'

4.26 Serch hynny, fel y noda Dolan a Metcalfe (2013) hefyd, mae cryn gymhlethdod cysyniadol yn gysylltiedig â sut y caiff llesiant ei fesur. O fewn hyn, mae'r hyn a ganfyddir i ddylanwadu ar lesiant yn cael ei weld yn ddeinamig, yn esblygu dros amser. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnig darlun cenedlaethol blynyddol o lesiant, gan gynnwys (llawer) o'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, er bod lefel y manylder sy'n gysylltiedig â phob un o'r penderfyniadau llesiant, yn ogystal â

materion penodol sy'n unigryw i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, wedi amrywio dros amser.

- 4.27 Gall bwlch posibl yn y mesurau hyn gynnwys y gwahaniaeth rhwng cyflawni canlyniadau llesiant personol ar lefel unigol (fel y nodwyd mewn arolygon cenedlaethol fel yr Arolwg Cenedlaethol) a newid yn y penderfynyddion llesiant sy'n gysylltiedig â dangosyddion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith ei hun yn datgan:

“Pan fydd pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn pennu eu canlyniadau llesiant personol ar y cyd â gwasanaethau, gallant ddisgwyl y byddant yn cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a ddiffinnir yn y datganiad llesiant.”
(Llywodraeth Cymru, 2019; 6)

- 4.28 Ac eto, o ystyried cymhlethdod llesiant, ei ddefnydd i lywio dyluniad polisi, cynnydd ac effaith y polisi a amlinellwyd gan Dolan a Metcalfe (2013), yn ogystal â chyfuno canlyniadau personol, efallai na fydd y datganiad hwn yn cyd-fynd yn llwyr â datganiad y canlyniadau llesiant ehangach.

5. Casgliadau

- 5.1 Mae ein canfyddiadau'n amlygu gorgyffwrdd sylweddol rhwng y cysyniadau Llesiant sydd wedi'u hangori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r rhai a amlinellir yn y llenyddiaeth, yn ogystal â'r data gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Cafodd llawer o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad llenyddiaeth yn benodol mewn perthynas â Llesiant plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn eu hadleisio gan y carfanau hyn o gyfranogwyr, yn enwedig o ran themâu trawsbynciol megis perthnasoedd teuluol a phersonol.
- 5.2 O ran sut mae profiadau gwasanaethau cymdeithasol yn rhyngweithio â Llesiant, roedd yn amlwg bod mentrau sy'n nodi llety addas ar gyfer a chyda defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â darparu gwybodaeth am weithgareddau hamdden a gwirfoddoli o fudd i lawer. Fodd bynnag, i rai o'r cohort oedolion yn arbennig, roedd materion yn ymwneud â sicrhau hawliau yn amlygu 'man problemus' lle roedd gan ddarpariaeth gwasanaeth y potensial i ddylanwadu'n negyddol ar lesiant.
- 5.3 Yn deillio o hyn, rydym wedi nodi tri dimensiwn sy'n ymddangos yn bwysig i lesiant nad ydynt wedi'u hamlinellu'n amlwg yn y Ddeddf na'r NOF: atebolrwydd; perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol; dewis dros lefel rheolaeth. Cynigiodd defnyddwyr ar draws pob un o'r carfanau naratifau ac enghreifftiau lle'r oedd pob un o'r agweddau hyn yn dylanwadu'n negyddol ar eu lesiant. I'r gwrthwyneb, mewn naratifau cadarnhaol roedd yn amlwg bod Llesiant pobl wedi elwa ar berthnasoedd cadarnhaol a thryloyw gyda gweithwyr proffesiynol neu weithwyr cymdeithasol. Hefyd, roedd gallu penderfynu ar y lefel o reolaeth, annibyniaeth ac ymreolaeth a oedd yn addas ac yn ddymunol ar gyfer unigolion yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant.
- 5.4 Er mwyn datblygu egwyddor Llesiant y Ddeddf ymhellach, rydym yn argymhell archwilio ymhellach sut ac i ba raddau y mae canlyniadau Llesiant personol goddrychol yn cydblethu â'r dangosyddion Llesiant cenedlaethol gwrthrychol. Mae Llesiant yn hynod gymhleth a dadleuol, gan ymgorffori syniadau goddrychol o'r hyn sy'n dda i chi'ch hun. Mae canlyniadau cenedlaethol, er enghraifft, ar y gyfran o ddefnyddwyr gwasanaeth ar daliadau uniongyrchol o bosibl yn benderfynydd Llesiant, ond mae potensial i anwybyddu'r mater allweddol, sef a yw'r defnyddiwr yn teimlo mai'r ffordd hon o weithio yw'r ffordd orau iddo. Mae angen ystyried yn ofalus y dylanwadau ar lesiant ar lefel unigol yn ogystal ag ar lefel poblogaeth, a bydd angen archwilio ymhellach y cydadwaith rhwng y gwahanol ddylanwadau hyn.

- 5.5 Canfuom fod y cysyniad o lesiant a gymhwyswyd ym mholisiau ac arferion Cymru yn atseinio i raddau helaeth â phrofiadau byw a safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Fodd bynnag, er bod yr aliniad cysyniadol hwn yn ganfyddiad cadarnhaol, o ran gwella llesiant, daeth heriau clir i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar lesiant hefyd, megis lefel y cyfrifoldeb a ddymunir am reoli taliadau, cynnal perthnasoedd a bywyd cymdeithasol, ac, mewn perthynas â hawliau a dinasyddiaeth, nid yn unig y gwrandewid ar farn defnyddwyr gwasanaeth ond y gweithredwyd arni wedyn.
- 5.6 Yn olaf, o ystyried bod y data ansoddol wedi'u casglu cyn y pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo dilynol, nid yw'r adroddiad hwn yn gallu ystyried sut yr effeithiwyd ar lesiant defnyddwyr gwasanaeth a'u canfyddiadau o'r gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, o ystyried y canfyddiadau a amlinellir yma, a'r ffaith bod llawer o wasanaethau safonol wedi'u tynnu'n ôl, mae'n debygol y bydd rhai nodweddion o lesiant sy'n seiliedig ar berthynas (e.e., grwpiau cymunedol, canolfannau dydd, ymweliadau â chartrefi gofal) wedi'u peryglu.

Argymhellion

- 5.7 Roedd elfen llesiant y Ddeddf yn cynnig nod uchelgeisiol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru: ymestyn ei gyrhaeddiad y tu hwnt i gynnig gwasanaethau gofal craidd drwy ymgysylltu'n weithredol â hyrwyddo a gwella llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath.
- 5.8 Mae llesiant, yn ôl ei ddiffiniad, yn gysyniad cyfannol sy'n tynnu o bob parth o fywyd yr unigolyn gan gynnwys y perthynol, emosiynol, a chorfforol. Yma mae uchelgais clodwiw y Ddeddf, sef cyflawni gwelliannau cyfannol, mesuradwy ar gyfer llesiant, mewn grŵp sylweddol o'r boblogaeth sydd yn gyffredinol yn wynebu caledi o wahanol fathau mewn agweddau allweddol o'u bywydau, yn dasg hynod heriol.
- 5.9 Er bod y nod hwn yn un i'w ganmol, mae'r astudiaeth werthuso hon wedi nodi dwy broblem sylfaenol sy'n ymwneud â chyflawni'r gwelliant hwnnw mewn llesiant sy'n llesteirio uchelgeisiau'r Ddeddf:
- **Dydy'r diffiniad o lesiant a gymhwysir o fewn y Ddeddf, a'r strategaethau mesur cysylltiedig y mae'r diffiniad hwn wedi'u creu, ddim yn gwbl gydlynol â'r dystiolaeth ynghylch y defnydd cysyniadol o lesiant mewn cyd-destunau polisi eraill.** Canlyniad y cydlyniad rhannol hwn ydy bod y gallu i fesur a deall effaith y Ddeddf ar lesiant y rhai sy'n defnyddio gofal cymdeithasol

yn gyfyngedig iawn. Mae ffynonellau'r data'n gyfyngedig, ac yn y data sydd ar gael (megis Arolwg Cenedlaethol Cymru), mae'r gallu i nodi'r bobl sy'n cael mynediad i, ac yn defnyddio, gofal cymdeithasol, a'u gofalwyr, wedi bod yn anghyson o ran cael gafael arno. Yn ogystal, dydy'r dulliau mesur a ddefnyddir ac a ddyfynnwyd fel rhai sy'n cyfleu statws llesiant, a'r newid ynddo ar ôl gweithredu'r Ddeddf, ddim yn ddigonol i ddangos ei effaith ar gyfer ysgogi'r newid mewn llesiant o fewn y boblogaeth berthnasol.

- **Mae'r lefel sylweddol o uchelgais a fynegwyd yn iaith y Ddeddf ynglyn â llesiant wedi creu bwlch sylweddol rhwng yr uchelgais hwnnw a'r realiti o allu darparu – a derbyn – gwasanaethau gofal cymdeithasol pan fo cyllidebau dan bwysau a'r gweithlu'n ansefydlog, ac wedi ei effeithio ymhellach gan bandemig y COVID-19.** O ran y llesiant, mae'r bwlch hwn yn arbennig o broblematic – mae ein hastudiaeth wedi dynodi, lle mae disgwyliadau gwasanaethau'n cael eu crybwyll gan yr iaith a ddefnyddir o fewn neu o gwmpas y Ddeddf a heb gael eu bodloni, fod yna effaith andwyol ar y llesiant. Mae'r siom sy'n cael ei greu yn cael ei ddilyn gan ddrwgdybiaeth ac ymddieithrio, gan ffurfio argraffiadau negyddol o weithwyr proffesiynol a pherthynas gyda nhw a allai fel arall fod â'r gallu i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl. Mewn geiriau eraill, yn anffodus, gall uchelgais elfennau llesiant y Ddeddf fod yn cyfrannu'n negyddol at argraff pobl o ofal cymdeithasol yng Nghymru, a'u llesiant. Ymhellach, gallai hyn gael sgil-ffaith ar y gweithlu a fynegodd ar adegau ymdeimlad o ddadurthiad yn deillio o'r bwlch rhwng iaith ddyheadol y Ddeddf a realiti eu gallu i'w chyflawni.

5.10 Rydyn ni'n argymhell mabwysiadu tri ymateb i'r ddau fater hyn:

1. **Sefydlu a chyfleu diffiniad syml a chlir o lesiant, wedi'i alinio â'r llenyddiaeth ac â bwriad y Ddeddf.** Er bod y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (NOF) a Datganiad Llesiant Llywodraeth Cymru yn ceisio egluro'r dangosyddion sy'n sail i lesiant, dydy'r rhain ddim yn esbonio beth ydy cyflwr llesiant, ynddo'i hun, fel y mae'n berthnasol i syniad personol, goddrychol pobl o'u llesiant. Gellid defnyddio cadarnhau'r diffiniad hwn fel ennyd i ailgysylltu ag egwyddor trosfwaol y Ddeddf a gellid ei gyfleu'n hawdd i bawb sy'n ymwneud â monitro, darparu a derbyn gofal cymdeithasol.

2. **Buddsoddi mewn gwell dull o fesur llesiant mewn nifer o leoliadau sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y rhyngwyneb darparu gwasanaethau.** Dylai'r rhain fod yn ychwanegol at Arolwg Cenedlaethol Cymru ac yn unol â'r diffiniad sefydledig fel yr uchod gyda'r meini prawf canlynol:⁹

- Yn mesur llesiant goddrychol gyda phwysoli cyfartal i lesiant gwrthrychol/allanol;
- Wedi'i gynllunio ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y rhyngwyneb darparu gwasanaethau, a'u darparu'n uniongyrchol iddyn nhw, gydag addasiadau o ran oedran, iaith a gallu er mwyn caniatáu gweithredu eang;
- Wedi'i fesur yn rheolaidd gan adrannau a sefydliadau awdurdodau lleol, a'i goladu ar lefelau lleol a chenedlaethol; a hefyd
- Data llesiant a gasglwyd drwy'r uchod i gael ei gyhoeddi, ei ddadansoddi, a gweithredu arno ar lefelau lleol a chenedlaethol i gefnogi gwella gwasanaethau a llesiant.

3. **Addasu'r tri maen prawf yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol (NOF).**

Gallai newid y tri mesur isod helpu'n ymarferol i gynnwys gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd yn y defnydd ehangach o'r NOF diwygiedig, ac o ran bod pawb yn ail-gyfeirio ato:

- Ymestyn y 'berthynas' i gynnwys perthynas â gweithwyr proffesiynol cynorthwyol fel allwedd i lesiant;
- Ymestyn 'hawliau a hawliadau' i gynnwys atebolrwydd y gwasanaethau i'r bobl sy'n cael mynediad iddyn nhw, gan gynnwys gwybodaeth am ba benderfyniadau a wnaed yn ymwneud â'u gofal a'r rhesymau personol a roddwyd dros y penderfyniadau hynny; a hefyd
- Newid yn y rheolaeth dros wasanaethau i gynnwys dewis o ran faint o reolaeth yr hoffai unigolyn ei gael dros eu gwasanaethau.

⁹ O ystyried y rhwystrau lluosog sydd yn bodoli i gasglu data rheolaidd ychwanegol ar lefel leol a sefydliadol, mae'n hanfodol bod yr argymhelliad uchod yn cael ei wneud mewn modd cwbl gydweithredol gyda rhanddeiliaid gofal cymdeithasol ar lefelau uwch a lleol er mwyn sicrhau llwyddiant.

Cyfeiriadau

Broadhurst, K., Hall, C., Wastell, D., White, S., & Pithouse, A. (2010). Risk, instrumentalism and the humane project in social work: Identifying the informal logics of risk management in children's statutory services. *British Journal of Social Work*, 40(4), 1046-1064.

Burrows, D., Lyttleton-Smith, J., Sheehan, L., & Jones, S. (2021). Llesiau gofalwyr yn ystod pandemig COVID-19: negeseuon ar gyfer dyfodol gofal di-dâl yng Nghymru. *Adroddiad Prifysgol Caerdydd/GIG Cymru*. Ar gael yn: [Voices of carers during the COVID-19 pandemic](#) [Cyrchwyd 05/05/22]

Cossar, J., Brandon, M., & Jordan, P. (2016). 'You've got to trust her and she's got to trust you': Children's views on participation in the child protection system. *Child & Family Social Work*, 21(1), 103-112.

Dolan, P., & Metcalfe, R. (2013). Measuring subjective well-being: Recommendations on measures for use by national governments. *Journal of Social Policy*, 41(2), 409-427.

Frijters, P., & Beaton, T. (2012). The mystery of the U-shaped relationship between happiness and age. *Journal of Economic Behaviour & Organization*, 82(2-3), 525-542.

Hart, C. S., & Brando, N. (2018). A capability approach to children's well-being, agency and participatory rights in education. *European Journal of Education*, 53(3), 293-309.

Ku, P. W., Fox, K. R., & Chen, L. J. (2016). Leisure-time physical activity, sedentary behaviours and subjective well-being in older adults: An eight-year longitudinal research. *Social Indicators Research*, 127(3), 1349-1361.

Litwin, H., & Stoeckel, K. J. (2013). Social networks and subjective well-being among older Europeans: does age make a difference? *Ageing & Society*, 33(7), 1263-1281.

Llewellyn M, Verity F, Wallace S, Calder G, Garthwaite T, Lyttleton-Smith J, and Read S (2023). O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynnol *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 36/2023. Ar gael yn: [Adroddiad Terfynnol](#).

Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (argr) (2020). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth*. Caerdydd. Lywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2020. Ar gael yn: [Adolygiad Llenyddiaeth](#).

Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (argr) (2023). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth*. 2nd Edn. Caerdydd. Lywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 42/2023. Ar gael yn: [Adolygiad Llenyddiaeth](#).

Long, S. J., Evans, R. E., Fletcher, A., Hewitt, G., Murphy, S., Young, H., & Moore, G. F. (2017). Comparison of substance use, subjective well-being and interpersonal relationships among young people in foster care and private households: A cross sectional analysis of

the School Health Research Network survey in Wales. *BMJ Open*, 7(2), 1–10. [A cross sectional analysis of the School Health Research Network survey in Wales](#).

Lucas, R. E., Clark, A. E., Georgellis, Y., & Diener, E. (2004). Unemployment alters the set point for life satisfaction. *Psychological science*, 15(1), 8-13.

Lyttleton-Smith, J. (2017). *Young carers speak out! Final Report. Project Report*. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

Martyr, A., Nelis, S. M., Quinn, C., Wu, Y. T., Lamont, R. A., Henderson, C., ... & Morris, R. G. (2018). Living well with dementia: a systematic review and correlational meta-analysis of factors associated with quality of life, well-being and life satisfaction in people with dementia. *Psychological medicine*, 48(13), 2130-2139.

McLeod, J., & Wright, K. (2016). What does wellbeing do? An approach to defamiliarize keywords in youth studies. *Journal of Youth Studies*, 19(6), 776–792.

Moreno, A., & Vicente-Virseda, J. A. (2016). Family Situation, Social Protection, and Well-being of Older Adults from an European Comparative Perspective. *Research on Ageing and Social Policy*, 4(2), 96-127.

Selwyn, J., Wood, M., & Newman, T. (2017). Looked after children and young people in England: Developing measures of subjective well-being. *Child Indicators Research*, 10(2), 363-380.

Sen A (2009). *Idea of Justice*. Oxford. Oxford University Press.

Simone, P. M., & Haas, A. L. (2013). Frailty, leisure activity and functional status in older adults: Relationship with subjective well-being. *Clinical Gerontologist*, 36(4), 275-293.

Gofal Cymdeithasol Cymru (2019). *Sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' ac asesu* [ar-lein]. Ar gael yn: [Sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' ac asesu](#) - [Cyrchwyd 16/12/2020].

Llywodraeth Cymru (2014). *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* [ar-lein]. Ar gael yn: [Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014](#) - [Cyrchwyd 16/12/2020].

Llywodraeth Cymru (2016). *Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* [ar-lein]. Ar gael yn: [Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr](#) - [Cyrchwyd 11/11/2022].

Llywodraeth Cymru (2019). *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* [ar-lein]. Ar gael yn: [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol](#) - [Cyrchwyd 16/12/2020].

Llywodraeth Cymru (2020). *Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2018 i Mawrth 2019* [ar-lein]. Ar gael yn: [Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2018 i Mawrth 2019](#) . [Cyrchwyd 16/12/2020].

Llywodraeth Cymru (2022). *Arolwg Cenedlaethol Cymru: adroddiad ansawdd, Ionawr 2021 ymlaen* [ar-lein]. Ar gael yn: [Arolwg Cenedlaethol Cymru: adroddiad ansawdd](#) [Cyrchwyd 29/09/2022].

Atodiad 1: Amlinelliad o Amserlen Cyfweiliadau Ansoddol (Oedolion a Phobl Hŷn)

1. Beth yw natur y gofal a'r cymorth yr ydych wedi'u derbyn drwy'r gwasanaethau cymdeithasol dros y 4 blynedd diwethaf?
2. A gawsoch chi ofal a chymorth drwy'r gwasanaethau cymdeithasol cyn y 4 blynedd diwethaf?
3. Pe bawn yn gofyn i chi, "Sut mae eich llesiant heddiw?" beth ydych chi'n meddwl y byddwn i'n holi amdano? E.e. *lechyd corfforol, lechyd meddwl, cyflyrau bywyd, hapusrwydd, digwyddiadau diweddar ac ati.*

NEU

4. Beth yw ystyr y term 'llesiant' yn eich barn chi? *Rhowch ddiffiniad LIC ar ôl eu diffiniad eu hunain. **
5. Gan feddwl am y 4 blynedd diwethaf, pa ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn eich bywyd ydych chi'n teimlo sydd wedi bod o fudd mwyaf i'ch llesiant (gan ddefnyddio diffiniad LIC)?
6. Gan feddwl am y 4 blynedd diwethaf, pa ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn eich bywyd ydych chi'n teimlo sydd wedi niweidio eich llesiant fwyaf (gan ddefnyddio diffiniad LIC)?
7. A ydych wedi cael llawer o gysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y materion penodol hynny a drafodwyd yng nghwestiwn 4?

Atodiad 2: Dadansoddiad o ddata Llesiant

Mae'r ffigurau yn yr atodiad hwn yn ymwneud â'r dadansoddiad a gyflwynir yn Adran 3 ac Adran 4. Cafwyd data ar y pedwar mesur llesiant personol a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac a fabwysiadwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru (yr Arolwg Cenedlaethol). Cyflwynir canlyniadau o 2013-14 i 2020-21 lle mae data perthnasol ar gael.

Mae Tabl A1 yn cyflwyno sampl sgorau cymedrig oedolion wedi'i bwysoli ar gyfer pedwar mesur llesiant y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru yn yr Arolwg Cenedlaethol gyda Thabl A2 a Thabl A3 yn ystyried y mesurau hyn dim ond ar gyfer y rhai sy'n nodi eu bod yn ofalwyr neu sydd â salwch, anabledd, neu lesgedd hirdymor cyfyngol. Mae Tabl A4 yn cyflwyno canlyniadau model llinol cyffredinol (GLM) sy'n asesu effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar lesiant y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, gyda Thabl A5 yn ystyried yn benodol effaith ychwanegol COVID-19 yn 2020-21. Cyflwynir y dadansoddiadau GLM hefyd ar gyfer yr is-grŵp LLSIDI (Tablau A6 ac A7).

Tabl A1: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Poblogaeth Gyffredinol

Blwyddyn	Bodddhad â Bywyd		Pa mor werth chweil yw bywyd		Teimlo'n Bryderus Ddoe		Teimlo'n Hapus Ddoe	
	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)
2013-14	14,700	7.68 (7.56, 7.80)	14,616	8.01 (7.89, 8.13)				
2014-15	14,195	7.87 (7.75, 7.99)	14,102	8.06 (7.94, 8.18)	14,169	2.50 (2.42, 2.57)	14,160	7.66 (7.54, 7.78)
2016-17	10,470	7.76 (7.63, 7.87)	10,413	7.98 (7.86, 8.10)	10,466	2.72 (2.64, 2.80)	10,464	7.54 (7.42, 7.66)
2017-18	11,368	7.76 (7.66, 7.86)	11,331	7.94 (7.84, 8.04)	11,363	2.71 (2.64, 2.78)	11,369	7.57 (7.47, 7.67)
2018-19	11,884	7.80 (7.69, 7.90)	11,850	8.01 (7.90, 8.11)	11,888	2.72 (2.65, 2.79)	11,880	7.62 (7.52, 7.73)
2019-20	12,293	7.77 (7.66, 7.87)	12,258	7.97 (7.86, 8.07)	12,294	2.86 (2.79, 2.93)	12,296	7.58 (7.47, 7.68)
2020-21	15,759	7.51 (7.39, 7.62)	15,726	7.85 (7.73, 7.96)	15,758	3.14 (3.06, 3.21)	15,767	7.47 (7.36, 7.59)

Sgorau llesiant cyffredinol y boblogaeth wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Tabl A2: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Gofalwyr

Blwyddyn	Bodddhad â Bywyd		Pa mor werth chweil yw bywyd		Teimlo'n Bryderus Ddoe		Teimlo'n Hapus Ddoe	
	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)
2013-14								
2014-15	460	7.24 (6.70, 7.77)	457	7.76 (7.19, 8.33)	461	2.83 (2.45, 3.21)	459	7.10 (6.54, 7.67)
2016-17	499	8.10 (7.59, 8.62)	496	8.68 (8.14, 9.23)	496	3.43 (3.04, 3.82)	496	7.88 (7.37, 8.39)
2017-18	2,740	8.05 (7.86, 8.25)	2,737	8.40 (8.20, 8.60)	2,733	3.13 (2.98, 3.29)	2,737	7.79 (7.59, 7.99)
2018-19	583	7.88 (7.44, 8.31)	582	8.47 (8.01, 8.93)	583	3.70 (3.30, 4.09)	583	7.67 (7.23, 8.11)
2019-20	3,477	7.78 (7.60, 7.96)	3,473	8.16 (7.98, 8.34)	3,482	3.05 (2.91, 3.18)	3,482	7.59 (7.40, 7.78)
2020-21	3,859	7.44 (7.24, 7.65)	3,857	7.94 (7.73, 8.15)	3,858	3.29 (3.15, 3.43)	3,861	7.47 (7.26, 7.68)

Sgorau llesiant gofalwyr wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Tabl A3: Sgorau cymedrig ar gyfer Mesurau Llesiant – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol

Blwyddyn	Bodddhad â Bywyd		Pa mor werth chweil yw bywyd		Teimlo'n Bryderus Ddoe		Teimlo'n Hapus Ddoe	
	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)	N	Cymedr (95% CI)
2013-14	4,383	5.80 (5.64, 5.96)	4,347	6.30 (6.13, 6.46)				
2014-15	4,182	5.93 (5.76, 6.09)	4,134	6.23 (6.06, 6.40)	4,166	2.76 (2.63, 2.88)	4,161	5.78 (5.62, 5.94)
2016-17	3,914	6.17 (6.01, 6.32)	3,872	6.48 (6.32, 6.64)	3,909	3.08 (2.95, 3.21)	3,912	6.05 (5.89, 6.20)
2017-18	4,453	6.22 (6.09, 6.36)	4,431	6.49 (6.35, 6.62)	4,453	3.05 (2.93, 3.16)	4,457	6.08 (5.94, 6.21)
2018-19	4,555	6.25 (6.12, 6.39)	4,536	6.55 (6.41, 6.69)	4,559	2.99 (2.88, 3.10)	4,552	6.15 (6.02, 6.29)
2019-20	4,993	6.24 (6.12, 6.37)	4,967	6.57 (6.44, 6.70)	4,990	3.11 (3.00, 3.22)	4,991	6.11 (5.98, 6.23)
2020-21	1,859	5.97 (5.72, 6.23)	1,855	6.51 (6.22, 6.79)	1,859	3.18 (2.96, 3.40)	1,861	6.06 (5.80, 6.32)

Sgorau llesiant LLSIDI wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Tabl A4: Dadansoddiad Cynradd GLM o Fesurau Llesiant – Poblogaeth Gyffredinol Cymru

Categori	N	Sgôr wedi'i Addasu	Gwahaniaeth
		Cymedr (95% CI)	Cymedr (95% CI)
Bodddhad â Bywyd			
Cyn SSWBA	28,882	7.83 (7.76, 7.91)	
Ar ôl SSWBA	61,656	7.68 (7.63, 7.72)	-0.16 (-0.24, -0.07)
Pa mor werth chweil yw bywyd			
Cyn SSWBA	28,707	8.13 (8.06, 8.20)	
Ar ôl SSWBA	61,467	7.90 (7.85, 7.95)	-0.22 (-0.31, -0.14)
Pryderus Ddoe			
Cyn SSWBA	14,163	2.62 (2.55, 2.69)	
Ar ôl SSWBA	61,657	2.83 (2.79, 2.86)	0.21 (0.13, 0.29)
Hapus Ddoe			
Cyn SSWBA	14,154	7.64 (7.54, 7.74)	
Ar ôl SSWBA	61,633	7.56 (7.52, 7.61)	-0.08 (-0.19, 0.03)

Sgorau llesiant cyffredinol y boblogaeth wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Caiff canlyniadau eu haddasu ar gyfer rhyw, grŵp oedran, ardal drefol/gwledig, cyfnod COVID-19, awdurdod lleol, iechyd cyffredinol, a chwarter MALIC.

Tabl A5: Dadansoddiad Sensitifrwydd GLM o Fesurau Llesiant gyda chyfnod COVID-19 – Poblogaeth Gyffredinol Cymru

Categori	N	Sgôr wedi'i Addasu	Gwahaniaeth
		Cymedr (95% CI)	Cymedr (95% CI)
Bodddhad â Bywyd			
Cyn SSWBA	28,882	7.85 (7.78, 7.92)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	45,920	7.69 (7.64, 7.75)	-0.16 (-0.24, -0.07)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	15,736	7.61 (7.52, 7.70)	-0.24 (-0.35, -0.12)
Pa mor werth chweil yw bywyd			
Cyn SSWBA	28,707	8.11 (8.04, 8.18)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	45,765	7.89 (7.84, 7.94)	-0.22 (-0.31, -0.14)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	15,702	7.96 (7.87, 8.05)	-0.15 (-0.27, -0.04)
Pryderus Ddoe			
Cyn SSWBA	14,163	2.49 (2.42, 2.56)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	45,921	2.70 (2.66, 2.74)	0.21 (0.13, 0.29)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	15,736	3.31 (3.25, 3.37)	0.82 (0.73, 0.91)
Hapus Ddoe			
Cyn SSWBA	14,154	7.62 (7.53, 7.72)	
Ar ôl SSWBA (Cyn-COVID-19)	45,919	7.54 (7.49, 7.60)	-0.08 (-0.19, 0.03)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	15,744	7.62 (7.53, 7.71)	0.00 (-0.13, 0.13)

Sgorau llesiant cyffredinol y boblogaeth wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Caiff canlyniadau eu haddasu ar gyfer rhyw, grŵp oedran, ardal drefol/gwledig, awdurdod lleol, iechyd cyffredinol, a chwarterl MALIC.

Tabl A6: Dadansoddiad Cynradd GLM o Fesurau Llesiant – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol

Categori	N	Sgôr wedi'i Addasu	Gwahaniaeth
		Cymedr (95% CI)	Cymedr (95% CI)
Bodddhad â Bywyd			
Cyn SSWBA	8,561	6.13 (6.04, 6.23)	
Ar ôl SSWBA	19,746	6.09 (6.02, 6.15)	-0.05 (-0.17, 0.07)
Pa mor werth chweil yw bywyd			
Cyn SSWBA	8,476	6.57 (6.47, 6.67)	
Ar ôl SSWBA	19,635	6.39 (6.33, 6.46)	-0.18 (-0.30, -0.06)
Pryderus Ddoe			
Cyn SSWBA	4,165	2.84 (2.72, 2.95)	
Ar ôl SSWBA	19,742	3.05 (3.00, 3.10)	0.22 (0.09, 0.34)
Hapus Ddoe			
Cyn SSWBA	4,159	6.04 (5.90, 6.17)	
Ar ôl SSWBA	19,744	6.04 (5.98, 6.10)	0.01 (-0.15, 0.16)

Sgorau llesiant LLSIDI wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Caiff canlyniadau eu haddasu ar gyfer rhyw, grŵp oedran, ardal drefol/gwledig, cyfnod COVID-19, awdurdod lleol, iechyd cyffredinol, a chwarterel MALIC.

Tabl A7: Dadansoddiad Sensitifrwydd GLM o Fesurau Llesiant gyda chyfnod COVID-19 – Pobl â salwch, anabledd neu lesgedd hirdymor cyfyngol

Categori	N	Sgôr wedi'i Addasu	Gwahaniaeth
		Cymedr (95% CI)	Cymedr (95% CI)
Bodddhad â Bywyd			
Cyn SSWBA	8,561	6.18 (6.08, 6.27)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	17,891	6.13 (6.06, 6.19)	-0.05 (-0.17, 0.07)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	1,855	5.48 (5.28, 5.68)	-0.70 (-0.92, -0.47)
Pa mor werth chweil yw bywyd			
Cyn SSWBA	8,476	6.59 (6.50, 6.69)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	17,785	6.42 (6.35, 6.48)	-0.18 (-0.30, -0.06)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	1,850	6.03 (5.82, 6.24)	-0.57 (-0.80, -0.33)
Pryderus Ddoe			
Cyn SSWBA	4,165	2.81 (2.70, 2.93)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	17,887	3.03 (2.97, 3.08)	0.22 (0.09, 0.34)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	1,855	3.30 (3.13, 3.48)	0.49 (0.28, 0.70)
Hapus Ddoe			
Cyn SSWBA	4,159	6.07 (5.93, 6.20)	
Ar ôl SSWBA (Cyn COVID-19)	17,888	6.07 (6.01, 6.14)	0.01 (-0.14, 0.16)
Ar ôl SSWBA (yn ystod COVID-19)	1,856	5.68 (5.48, 5.88)	-0.39 (-0.63, -0.14)

Sgorau Llesiant LLSIDI wedi'u lluosu â phwysau sampl oedolion.

Caiff canlyniadau eu haddasu ar gyfer rhyw, grŵp oedran, ardal drefol/gwledig, awdurdod lleol, iechyd cyffredinol, a chwarterl MALIC.